***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 1130

# Rheoliadau Deddf Gwelyau Haul (Rheoleiddio) 2010 (Cymru) 2011

**Gwerthu neu hurio gwelyau haul o bell**

**6.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys os, mewn cysylltiad â gwerthu neu hurio gwely haul, nad yw'r fangre lle y derbynnir yr archeb am y gwely haul yr un fath â'r fangre yr anfonir y gwely haul ohoni i'w draddodi yn unol â'r gwerthu neu'r hurio.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), mae'r gwerthu neu'r hurio i'w drin, at ddibenion rheoliad 5, fel petai wedi digwydd ar y fangre lle y derbyniwyd yr archeb.

(3) O ran y mangreoedd—

(a) os nad yw'r fangre lle y derbynnir yr archeb am y gwely haul yng Nghymru; a

(b) os yw'r fangre lle'r anfonir y gwely haul ohoni yng Nghymru,

mae'r gwerthu neu'r hurio i'w drin fel petai'n digwydd ar y fangre yr anfonir y gwely haul ohoni.